

CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb Cyngor Dinas Casnewydd

Adroddiad Blynyddol 2016 – 17

Swyddog yr Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb

info@newport.gov.uk



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. Mae fformatau eraill ar gael ar gais.
This document is available in Welsh. Other formats are available on request.

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Amcanion Cydraddoldeb.....	3
Amcan Cydraddoldeb 1: Amrywiaeth yn y Gweithle - Cynnwys Cyflogeion	4
Amcan Cydraddoldeb 2 : Ymgysylltiad a chyfranogiad democrataidd	6
Amcan Cydraddoldeb 3: Gwella Mynediad i Wasanaethau	8
Amcan Cydraddoldeb 4: Trechu Tlodi.....	11
Amcan Cydraddoldeb 5: Cymunedau Cydlynus a mynd i'r afael â throseddau casineb ..	14
Amcan Cydraddoldeb 6: Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	17
Amcan Cydraddoldeb 7: Digartrefedd.....	19
Amcan Cydraddoldeb 8: Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg	22
Amcan Cydraddoldeb 9: Cydymffurfiaeth Gorfforaethol.....	24
Data Cydraddoldeb: o gasglu data i ddarparu gwasanaethau	26
Casglu Data: creu darlun.....	26
Systemau/Casglu data	26
Ymgynghoriadau.....	26
Proffiliau Llesiant Cymunedol.....	27
Gwerthuso data: datblygu arfer da.....	27
Asesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb	27
Cynlluniau Maes Gwasanaeth.....	27
Defnyddio Data: cyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb.....	28
Grŵp Cydraddoldeb Strategol.....	28
Y Comisiwn Tegwch	28
Data Cyflogaeth	29
Llyfryddiaeth	1

Cyflwyniad

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd Cyngor Dinas Casnewydd Gynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yn nodi naw amcan cydraddoldeb y byddai'r awdurdod yn mesur ei hun yn eu herbyn dros y pedair blynedd nesaf. Roedd yr amcanion a ddewiswyd yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol yn ogystal â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Gwnaed hyn yn unol â'r ffyrdd newydd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus lunio adroddiad blynyddol a'i gyhoeddi o fewn blwyddyn i ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth. Mae'n nodi sut rydym yn cymhwyso'r gyfraith at waith y cyngor a'r cynnydd rydym wedi'i wneud o ran y camau gweithredu a nodwyd yn erbyn yr amcanion cydraddoldeb yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd rydym ni fel Awdurdod wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn gyntaf tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb. Caiff cynnydd o ran cyflawni'r cynllun ei fonitro gan y grŵp Cydraddoldeb Strategol, a gadeirir gan yr Aelod o'r Cabinet ac mae ei aelodau yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Comisiwn Tegwch, aelodau etholedig, Penaethiaid Gwasanaethau a swyddogion arweiniol.

Mae'r adroddiad yn cynnwys data cydraddoldeb sy'n ymwneud â'n staff ein hunain ac mae hyn yn ein galluogi i nodi i ba raddau rydym yn cynrychioli'r gymuned a wasanaethir gennym yn ogystal â chamau y mae angen i ni eu cymryd er mwyn cynrychioli ein hetholwyr yn well. Rydym hefyd wedi cynnwys gwybodaeth am y ffordd y mae'r awdurdod yn casglu data ac yn defnyddio'r wybodaeth wrth bennu cyfeiriad strategol a chynllunio gwasanaethau ac o fewn y broses gwneud penderfyniadau.

Yn ystod y 12 mis diwethaf gwnaed cynnydd cadarnhaol tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb ac rydym yn cyflwyno tystiolaeth o rywfaint o'r gwaith caled sydd wedi'i wneud i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb.

Ymhlith yr uchafbwyntiau mae:-

- Datblygu Templed Cynllunio'r Gweithlu a'r dangosfwrdd data
- Cyhoeddi ein Strategaeth Iaith Gymraeg 5 mlynedd
- Parhau i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET (nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant)
- Sefydlu tîm cymorth i gyflawni Cynllun y Swyddfa Gartref i Ailsefydlu Ffoaduriaid o Syria
- Gwella gweithgarwch ymgysylltu â'n Cymuned Fyddar
- Darparu hyfforddiant 'Ask and Act' er mwyn gwella ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig
- Ymateb i fwy na 3,200 o atgyfeiriadau i'r gwasanaethau llety a'r gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen

Mae'r adroddiad yn ystyried pob un o'r amcanion cydraddoldeb yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Amcanion Cydraddoldeb

Nodau Llesiant ac Amcanion Cydraddoldeb Cyngor Dinas Casnewydd	
Cymru sy'n fwy cyfartal	
1	Amrywiaeth yn y gweithle – Cynnwys Cyflogeion Bydd gweithlu'r Cyngor yn cynrychioli'r boblogaeth a wasanaethir gennym a chaiff y gweithlu ei gynnwys yn y penderfyniadau sy'n effeithio arno
2	Ymgysylltiad a chyfranogiad democrataidd Byddwn yn cynnwys pobl yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau'r Cyngor sy'n effeithio arnynt ac yn seilio penderfyniadau'r Cyngor ar yr hyn sydd ei angen ar bobl
3	Gwella Mynediad i Wasanaethau Gall pobl fanteisio ar bob un o wasanaethau a gweithgareddau'r Cyngor sydd eu hangen arnynt o ran mynediad ffisegol a'r gallu i gyfathrebu â hwy ac ati
4	Trechu Tlodi Byddwn yn gweithio i leihau tlodi, yn arbennig tlodi parhaus ymhlith rhai o'n pobl a'n cymunedau tlotaf, a lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn syrthio i dlodi
Cymru o gymunedau cydlynus	
5	Cymunedau Cydlynus a mynd i'r afael â throseddau casineb Mae pobl yn teimlo eu bod yn rhan o gymdeithas Casnewydd ac yn byw eu bywydau heb gamdriniaeth nac aflonyddu.
6	Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caiff pobl sy'n dioddef cam-drin domestig neu sy'n ei weld eu cynorthwyo gan y Cyngor a'i bartneriaid yn eu sefyllfa bresennol, a thrwy unrhyw newidiadau y maent am eu gwneud.
7	Digartrefedd Darparu amgylchedd diogel, cefnogol, grymusol ac anfeirniadol ar gyfer pobl ddigartref a phobl wedi'u hymyleiddio gel y gallant gyflawni eu potensial
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	
8	Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg Byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghasnewydd
9	Cydymffurfiaeth Gorfforaethol Arweiniad strategol, trefniadau llywodraethu, sicrhau bod safonau yn uchel ac yn gyson ym mhob rhan o'r cyngor ac ym mhob maes cyfrifoldeb.

Amcan Cydraddoldeb 1

Amrywiaeth yn y Gweithle - Cynnwys Cyflogeion <i>Cymru sy'n fwy cyfartal</i>	
Bydd gweithlu'r Cyngor yn cynrychioli'r boblogaeth a wasanaethir gennym a chaiff y gweithlu ei gynnwys yn y penderfyniadau sy'n effeithio arno	
Cam gweithredu 1	Datblygu Templed Cynllunio'r Gweithlu
Cam gweithredu 2	Creu dangosfwrdd data gweithlu er mwyn cymharu'r gweithlu â phoblogaeth Casnewydd Datblygu Strategaeth i fynd i'r afael â meysydd lle y ceir gwahaniaethau
Cam gweithredu 3	Nodi sefydliadau partner i weithio gyda hwy ar gynrychioli pobl wahanol
Cam gweithredu 4	Ymgysylltu â staff ynglŷn â materion sy'n effeithio arnynt

Crynodeb

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r awdurdod wedi gwneud llawer o waith ar ymgysylltu â chyflogeion ac wedi coladu data staff er mwyn datblygu Templed Cynllunio'r Gweithlu a'r dangosfwrdd data. Rydym hefyd wedi nodi pedwar maes gwaith o fewn ein proses Cynllunio'r Gweithlu, sef:-

1. Datblygu arferion cynllunio olyniaeth
2. Meithrin a datblygu talent
3. Adeiladu timau trawsbynciol ac uwchsgilio cyflogeion i allu gweithredu newid yn effeithiol
4. Sicrhau bod y gweithlu'n fwy cynrychioliadol o'r boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu drwy ymyriadau wedi'u targedu.

Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn meithrin dealltwriaeth o anghenion ei weithlu presennol a'i weithlu yn y dyfodol er mwyn cyflawni ei amcanion strategol. Mae'r meysydd gwaith uchod yn cynrychioli arferion hanfodol wrth ddatblygu strategaeth gadarn ar gyfer y gweithlu er mwyn sicrhau bod ein sefydliad yn gydnherth yn y dyfodol.

Cam Gweithredu 1

Mae templed cynllunio'r gweithlu bellach wedi'i sefydlu fel rhan annatod o'r gwaith o gynllunio meysydd gwasanaeth, sy'n defnyddio data gweithlu a gesglir yn ystod y flwyddyn. Caiff camau gweithredu eu pennu wedyn er mwyn sicrhau bod meysydd gwasanaeth yn ystyried materion sy'n ymwneud ag amcanion a thargedau cyllidebol meysydd gwasanaeth ac yn mynd i'r afael â hwy.

Cam Gweithredu 2

Mae'r dangosfwrdd data gweithlu bellach wedi'i sefydlu a chaiff ei adolygu bob blwyddyn ynghyd â Thempled Cynllunio'r Gweithlu fel rhan o raglen flynyddol i gynllunio meysydd gwasanaeth. Mae'r data yn ei gwneud yn bosibl i feysydd gwasanaeth nodi ymyriadau wedi'u targedu, gan sicrhau bod y gweithlu yn parhau i gynrychioli'r boblogaeth a wasanaethir gennym.

Drwy dempled Cynllunio'r Gweithlu a gwblheir bob blwyddyn a'r Dangosfwrdd Data Gweithlu, rydym yn datblygu strategaeth i fynd i'r afael â meysydd tangynrychioli a gorgynrychioli (gan gynnwys rhaglen brentisiaeth) . Mae hyn yn ein galluogi i ddefnyddio ymyriadau wedi'u targedu'n briodol er mwyn sicrhau bod y gweithlu'n parhau i fod yn fwy cynrychioliadol o'r boblogaeth.

Erbyn hyn caiff yr holl ddata ar weithlu'r cyflogaion, gan gynnwys data ar amrywiaeth a nodweddion gwarchoddedig, eu cofnodi a'u cyhoeddi bob blwyddyn. Mae Strategaeth Cynllunio'r Gweithlu wrthi'n cael ei datblygu fel thema o dan Gynllun Pobl cyffredinol y Cyngor ar gyfer 2017-22.

Cam Gweithredu 3

Mae'r cam gweithredu hwn eisoes yn rhan o'n cynllun gweithlu ac mae cydberthnasau cryf â'n sefydliadau partner wedi'u creu er mwyn sicrhau cynrychiolaeth ychwanegol gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Cam Gweithredu 4

Mae'r awdurdod wedi drafftio pum maes ymgysylltu a fydd yn rhan o Gynllun Pobl 2017-2022 ac wedi dechrau gweithio eisoes ar elfennau ymarferol y cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys pethau fel cynyddu nifer y grwpiau ffocws a gynhelir gydag aelodau o staff, cynnwys cyflogaion yn y broses o recriwtio Penaethiaid Gwasanaethau, diweddarau'r sianeli cyfathrebu sydd rhwng staff ac uwch reolwyr ac ystyried sut i ddefnyddio technoleg i wella prosesau cyfathrebu â staff.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwymo i sicrhau cyfathrebu dwyffordd effeithiol ac ystyrlon drwy nifer o sianeli. Nododd ein harolwg staff yn 2015/16 fod gweithgarwch ymgysylltu â chyflogaion yn gadarnhaol ar y cyfan ac rydym ar fin cyhoeddi atgrynhoad dros y 12 mis diwethaf o awgrymiadau a gafwyd gan y gweithlu ac ymateb ar sail 'dywedoch chi, gwnaethom ni' er mwyn dangos tystiolaeth o'n diwylliant gwranddo.

Amcan Cydraddoldeb 2

Ymgysylltiad a chyfranogiad democrataidd <i>Cymru sy'n fwy cyfartal</i>	
Byddwn yn cynnwys pobl yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau'r Cyngor sy'n effeithio arnynt ac yn seilio penderfyniadau'r Cyngor ar yr hyn sydd ei angen ar bobl	
Cam Gweithredu 1	Datblygu Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd i ategu'r Dadansoddiad o Ymatebion sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
Cam Gweithredu 2	Casglu data a gwybodaeth gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i ategu'r Dadansoddiad o'r Sefyllfa sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
Cam Gweithredu 3	Cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb ar gyfer newidiadau i bolisiâu, prosiectau ac ati ac fe'u cyhoeddir ar wefan y cyngor.
Cam Gweithredu 4	Sicrhau Cyngor Ieuenctid effeithiol ac ymroddedig yng Nghasnewydd a all gysylltu â'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau
Cam Gweithredu 5	Gweithio gyda Fforwm Iaith Casnewydd i ddatblygu strategaeth i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghasnewydd

Crynodeb

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Tîm Polisi, Partneriaeth ac Ymwneud wedi rhoi arweiniad corfforaethol ar weithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu. Bu'r tîm yn gweithio i ymgysylltu â phobl Casnewydd ynglŷn â'r Asesiad o Lesiant, yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb a'r Strategaeth Iaith Gymraeg 5 Mlynedd a Phanel y Dinasyddion. Mae hyn yn ychwanegol at waith ymgynghori a wnaed gan feysydd gwasanaeth eraill sy'n rhan o'u prosesau cyflawni busnes arferol.

Mae'r Grŵp Cydraddoldeb Strategol wedi cydnabod bod y broses ymgysylltu wedi gwella a bod gan aelodau etholedig rôl i'w chwarae wrth gefnogi'r gwaith hwn, yn eu hymgyngoriadau â'r etholwyr.

Cam Gweithredu 1

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae gennym ddyletswydd statudol i gynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau Llesiant a sicrhau bod ein hymgyngoreion yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth. Er mwyn gwneud hyn, mae gwaith ymgysylltu wedi'i wneud mewn modd cydweithredol lle mae CDC wedi ymgynghori â thrigolion drwy asiantaethau partner a digwyddiadau cymunedol, ac wedi targedu grwpiau penodol â nodweddion gwarchodedig drwy allgymorth cadarnhaol a gan ddefnyddio ieithoedd cymunedol. Cynhaliwyd y rhaglen ymgysylltu ar gyfer yr Asesiad o Lesiant rhwng diwedd mis Mehefin a 31 Hydref gydag estyniad yn cael ei ddarparu ar gyfer ysgolion.

Defnyddiwyd y data meintiol ac ansoddol a gasglwyd i ddatblygu ein Hasesiad o Lesiant yn ogystal â dylanwadu ar y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau yn ehangach.

Cam Gweithredu 2

Cafodd yr Asesiad o Lesiant Lleol ei gwblhau a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ebrill 2017.

Mae'r Asesiad o Lesiant Lleol hwn yn cynnwys amrywiaeth o ddata meintiol ac ansoddol sy'n dadansoddi lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol y boblogaeth a'r ardal.

Ategwyd y broses hon gan raglen ymgysylltu â'r cyhoedd helaeth a gynhaliwyd dros gyfnod o chwe mis yn 2016. Defnyddir yr asesiad hwn yn awr i ddatblygu'r Dadansoddiad o Ymatebion a'r Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer ardal Casnewydd dros y pum mlynedd nesaf.

Cam Gweithredu 3

Datblygwyd canllawiau gwell ar Asesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb i'w dosbarthu i staff. Bydd y canllawiau hyn yn sicrhau y caiff gofynion statudol newydd ac ystyriaethau polisi eraill megis y Gymraeg, Tegwch a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol eu hadlewyrchu'n briodol yn ein prosesau gwneud penderfyniadau. Byddwn yn hysbysebu'r ffaith bod y canllawiau hyn wedi'u cyhoeddi yn eang ymhlith ein staff, gan gyfleu ein rhwymedigaethau statudol a'n hymrwymiad ehangach i dryloywder.

Er mwyn hwyluso hyn, rydym hefyd wedi sefydlu cyfeiriad e-bost y bydd pob aelod o staff yn anfon yr asesiadau effaith a gwblhawyd ganddo iddo; golyga hyn y byddwn yn dal pob Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb yn ganolog, gan wella'r ffordd rydym yn asesu ymgysylltiad â phroses yr Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb.

Cam Gweithredu 4

Mae prosiect cyfranogi Cyngor Ieuenctid Casnewydd yn gweithio gyda phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed o bob rhan o'r ddinas i'w hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol a'u galluogi i leisio barn mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Caiff y prosiect ei gydgysylltu gan Tros Gynnal Plant ac mae'n gweithio ochr yn ochr â'r Cyngor i ddatblygu Strategaeth Gyfranogi Partneriaeth Casnewydd yn Un a'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol. Ar hyn o bryd mae aelodau o'r Cyngor Ieuenctid yn cymryd rhan mewn ymgynghoriadau ac maent hefyd yn ymwneud â'r Comisiwn Tegwch. Y themâu y mae'r Cyngor wedi dewis canolbwyntio arnynt yw Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Ifanc a phrosiect hanes ar ddatblygu hawliau a hunaniaeth gymdeithasol pobl ifanc.

Cam Gweithredu 5

Ym mis Mawrth 2017 cyhoeddodd Cyngor Dinas Casnewydd ei Strategaeth Iaith Gymraeg 5 mlynedd. Yn ogystal â chynnwys targed i gynyddu nifer y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y ddinas, mae'r strategaeth hon yn nodi amrywiaeth eang o ymrwymadau gan yr awdurdod i hyrwyddo'r Gymraeg, o fewn y gweithlu ac yn y gymuned ehangach. Mae'r ymrwymadau hyn yn cynnwys nifer o bethau fel; cynyddu nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y ddinas, gan hyrwyddo ymgysylltu â'r iaith ymhlith cymunedau lleiafrifol a gweithio gyda'r sector preifat i wneud y Gymraeg yn fwy gweladwy yn y ddinas.

Amcan Cydraddoldeb 3

Gwella mynediad i wasanaethau <i>Cymru sy'n fwy cyfartal</i>	
Gall pobl fanteisio ar bob un o wasanaethau a gweithgareddau'r Cyngor sydd eu hangen arnynt o ran mynediad ffisegol a'r gallu i gyfathrebu â hwy ac ati.	
Cam Gweithredu 1	Archwilio adeiladau'r cyngor i weld a ydynt yn hygyrch
Cam Gweithredu 2	Datblygu Strategaeth Hygyrchedd mewn perthynas ag ysgolion
Cam Gweithredu 3	Datblygu a chynnal gwasanaeth cyfieithu a dehongli Saesneg - Cymraeg ar gyfer y cyngor a threfniadau ar gyfer ieithoedd a fformatau eraill
Cam Gweithredu 4	Datblygu canllawiau ar safonau deunyddiau hygyrch a dwyieithog mewn perthynas â marchnata, cyhoeddusrwydd a gwybodaeth i gwsmeriaid
Cam Gweithredu 5	Monitro lefelau boddhad / nifer y cwynion ynghylch hygyrchedd gan gynnwys mynediad ffisegol, cyfathrebu a'r Gymraeg
Cam Gweithredu 6	Caiff staff rheng flaen yn y ganolfan gyswllt a'r Orsaf Wybodaeth eu hyfforddi mewn cyfathrebu hygyrch, gwasanaethau cwsmeriaid, ymwybyddiaeth o anabledd, rheoli gwrthdaro ac ati
Cam Gweithredu 7	Mae gwefan Cynhwysiant Digidol y Cyngor yn cydymffurfio â safon W3 ar lefel AA ac mae'n ddwyieithog

Crynodeb

Mae mwy na 73,000 o bobl yn ymweld â'r Ganolfan Ddinesig a'r Orsaf Wybodaeth bob blwyddyn, gan ddefnyddio nifer o wasanaethau gan gynnwys cyngor ar dai, treth gyngor a thrwyddedu. Mae'r Ganolfan Gyswllt yn rheoli mwy na 300,000 o alwadau bob blwyddyn ac mae gwefan CDC yn cael 1.6 miliwn o ymweliadau bob blwyddyn.

Dros y 12 mis diwethaf, mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud i wella mynediad i wasanaethau CDC. Bu Gwasanaethau Cwsmeriaid yn rhagweithiol o ran gwneud gwaith allgymorth gan gynnwys mynd i ysgolion er mwyn siarad â phobl ifanc a gwahanol gyfarfodydd cymunedol er mwyn hyrwyddo prif negeseuon CDC yn ogystal â chasglu adborth ar wasanaethau.

Cam Gweithredu 1

Sefydlwyd grŵp Strategaeth Gyfalaf a Rheoli Asedau mewnol i gynnal adolygiad o'r defnydd a wneir o adeiladau sy'n eiddo i CDC. Am fod yr adolygiad yn dal i fynd rhagddo, rhagwelir y cynhelir y rhaglen waith ar hygyrchedd yn ddiweddarach.

Cam Gweithredu 2

Nod strategaeth hygyrchedd Cyngor Dinas Casnewydd yw sicrhau bod plant sy'n mynd i ysgol gynradd hygyrch ar hyn o bryd yn cael cyfle i fynd i ysgol uwchradd hygyrch ochr yn ochr â'u cyfoedion. Y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer gwella hygyrchedd yn ein hysgolion yw gwneud addasiadau rhesymol sydd eu hangen, pan fydd angen eu gwneud.

At hynny, mae pob adeilad ysgol newydd wedi'i gynllunio i fod yn hygyrch i ddisgyblion ag anableddau yn unol â chanllawiau 'Building Bulletin'. Pan wneir gwaith adfer neu adnewyddu, caiff hygyrchedd gwell ei ymgorffori yn y cynllun lle y bo'n bosibl.

Yn 2016-17, cwblhawyd gwaith gwella mewn pedair ysgol gynradd ac un ysgol arbennig. Ymgwymerwyd â gwaith gwella mewn dwy ysgol uwchradd ac mae'n dal i fynd rhagddo yn y flwyddyn 2017-18.

Yn 2016-17 cynhaliodd yr awdurdod arolwg hunanasesu hygyrchedd o'r ystad ysgolion er mwyn nodi adeiladau lle y dylid blaenoriaethu gwaith er mwyn gwella hygyrchedd yn gyffredinol. Cwblhawyd yr arolwg gan 67% o'r ysgolion a bydd canlyniadau'r arolwg hwn yn helpu i lywio ein gweithgareddau strategol yn 2017-18. Caiff gwaith i wella hygyrchedd mewn dwy ysgol gynradd arall ei gwblhau yn y flwyddyn 2017-2018.

Cam Gweithredu 3

Mae'r Awdurdod wedi sefydlu gwasanaeth cyfieithu Cymraeg deudrac sy'n darparu cyfieithiadau byr (llai na 500 o eiriau) a chyfieithiadau hwy (mwy na 500 o eiriau). Gall pob aelod o staff y cyngor y mae angen iddo gael cyfieithiadau proffesiynol o ddogfennau ddefnyddio'r system hon.

Er mwyn hwyluso'r broses gyfieithu ymhellach, telir cost gwaith cyfieithu o gyllideb a ddelir yn ganolog. Dros y flwyddyn ariannol i ddod mae'r awdurdod yn gobeithio datblygu ei wasanaeth cyfieithu ymhellach.

Cam Gweithredu 4

Yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol comisiynodd yr awdurdod gyfres o ddeunyddiau hyrwyddol a chanllawiau mewnol sy'n nodi sut y dylai aelodau o staff ddefnyddio'r Gymraeg mewn ymgyrchoedd marchnata ac wrth wneud unrhyw waith hyrwyddo ar ran y Cyngor. Mae trefniadau llywodraethu mewnol ynglŷn â'r Gymraeg drwy Grŵp Gweithredu'r Gymraeg wedi ategu'r ymgyrch gyhoedduswydd hon drwy ledaenu cyngor ar farchnata a chyhoedduswydd i feysydd gwasanaeth a thimau unigol drwy gynrychiolwyr y Gymraeg sy'n aelodau o'r grŵp.

Er bod y deunyddiau a luniwyd gennym flwyddyn yn ôl wedi bod yn llwyddiannus, mae rhai arwyddion y bydd angen cynnal ail ymgyrch gyhoedduswydd mewn perthynas â chanllawiau, o bosibl. Gallai hyn gynnwys ailgynllunio'r deunyddiau presennol a diweddarau negeseuon rywfaint mewn ymateb i ddehongliadau o'r safonau sy'n newid.

Cam Gweithredu 5

Defnydd o'r gwasanaeth cwynion	Nifer y cwynion cam un a dderbyniwyd: 301 Nifer y cwynion cam dau: 30 Cyfeiriwyd 18 o gwynion at yr ombwdsmon ac argymhellwyd y dylid datrys un yn lleol.
Nifer y cwynion â chanlyniadau boddhaol	Caiff adroddiad blynyddol ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Medi 2017

Yr Iaith Gymraeg

Ni chafwyd yr un gŵyn ynghylch safonau darparu gwasanaethau Cymraeg, safonau gweithredol na safonau llunio polisiau. Fodd bynnag, cafwyd dwy gŵyn yn uniongyrchol gan swyddogion y Gymraeg. Roedd y naill yn ymwneud â safonau llunio polisiau a nifer y staff sydd ar gael ar ein llinell ffôn Gymraeg a'r llall yn ymwneud â'r ffaith bod arwydd Cymraeg yn ein meysydd parcio wedi'i guddio o'r golwg.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad blynyddol ar y Gymraeg, rydym yn cydnabod bod angen datblygu'r broses o gofnodi cwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg ymhellach.

Cydraddoldebau

Cafwyd 74 o gwynion ynghylch diffyg ymateb, amseroedd aros am wasanaethau neu rwystrau i gael gafael ar wasanaethau.

- Roedd 39 o'r cwynion hyn yn ymwneud ag amseroedd aros yng Nghanolfan Gyswllt y Ddinas.
- Roedd 31 o gwynion yn ymwneud â diffyg ymateb i ymholiadau neu geisiadau i feysydd gwasanaeth eraill gan gynnwys Tai, Cynllunio, Iechyd Amgylcheddol, Cludiant i'r Ysgol, Budd-dal Tai a Gwasanaethau Stryd.
- Cafwyd dwy gŵyn gan un trigolyn a oedd wedi cyfleu ei ofynion i'r Cyngor ond a oedd wedi cael dau lythyr mewn fformat a oedd yn anaddas i'w ddarllen.
- Cwynodd un cwsmer nad oedd unrhyw opsiwn i drefnu apwyntiad yn yr Orsaf Wybodaeth ymlaen llaw a chwynodd cwsmer arall am y negeseuon a'r ddewislen awtomataidd.
- Cwynodd tri chwsmer am eu bod yn credu bod y Cyngor wedi gwahaniaethu yn eu herbyn wrth wneud penderfyniadau neu ddarparu gwasanaethau.
 - Roedd y cwynion hyn yn ymwneud â phenderfyniad ynghylch cais am Fathodyn Glas yr ystyriwyd ei fod yn wahaniaethol, penderfyniad a gwasanaethau a ddarparwyd mewn perthynas â chais am dŷ. Roedd y trydydd achwynydd yn aelod o'r cyhoedd a oedd yn credu bod Hysbysiad Cosb Benodedig wedi'i gyflwyno'n amhriodol i unigolyn a oedd yn agored i niwed.
 - Cwynodd dau drigolyn ynghylch problem gyda liffet â chymorth ar gyfer casglu sbwriel a methiant i ddarparu bagiau hylendid ar gyfer gwastraff hylendid.
 - Cwynodd tri rhiant ynghylch y Gwasanaeth Anghenion Addysgol Arbennig.

Cam Gweithredu 6

Mae staff rheng flaen wedi cael yr hyfforddiant canlynol:-

- Cydraddoldebau – Cyflwyniad
- Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth
- Ymwybyddiaeth Cleifion Dementia
- Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
- Sesiynau Blasu'r Gymraeg

Rydym hefyd wedi gweithio gyda'n Cymuned Fyddar i wella'r ffordd rydym yn cefnogi'r gymuned drwy roi Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Fyddardod a hanfodion Iaith Arwyddon Prydain i staff.

Cam Gweithredu 7

Mae'r gwaith o gyfieithu'r wefan yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac mae dulliau o gyfieithu a chyhoeddi cynnwys ar yr un pryd â'r Saesneg yn y dyfodol wedi'u nodi.

Amcan Cydraddoldeb 4

Trechu Tlodi <i>Cymru sy'n fwy cyfartal</i>	
Byddwn yn gweithio i leihau tlodi, yn arbennig tlodi parhaus ymhlith rhai o'n pobl a'n cymunedau tlotaf, a lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn syrthio i dlodi	
Cam Gweithredu 1	Sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd drwy gyflawni rhaglen Dechrau'n Deg, darparu gofal plant fforddiadwy o ansawdd da a helpu plant i drosglwyddo i fyd addysg a thrwy bwyntiau trosglwyddo addysgol eraill.
Cam Gweithredu 2	Canolbwyntio ar yr arwyddion cynnar o angen er mwyn i blant a phobl ifanc allu cyflawni eu potensial (cyflawniad plant sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, Plant sy'n Derbyn Gofal, ac ati)
Cam Gweithredu 3	Rhoi'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid ar waith er mwyn sicrhau y cynigir cymorth priodol i bobl ifanc pan fyddant yn gadael yr ysgol.
Cam Gweithredu 4	Cyflawni'r Academi Dysgu Seiliedig ar Waith, rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (Prosiect Sgiliau Teuluol) er mwyn gwella sgiliau pobl, dileu rhwystrau i gyflogaeth a chodi dyheadau.
Cam Gweithredu 5	Gwaith wedi'i dargedu yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

Crynodeb

Mae Trechu Tlodi yn elfen allweddol o'r Cynllun Integredig Sengl (CIS) ac yn rychwantu themâu'r CIS. Ni welir yr un patrwm o amddifadedd ym mhob rhan o'r ddinas ac mae gennym bocedi o amddifadedd a chyfoeth. Mae'n bwysig nodi bod 24% o blant yn y ddinas yn byw mewn cartrefi sy'n ennill llai na'r incwm canolog a bod angen ystyried hynny wrth ddatblygu mentrau i fynd i'r afael â thlodi.

Mae lefelau diweithdra hefyd wedi gostwng yng Nghasnewydd yn ogystal â nifer y bobl sy'n economaidd weithgar. Mae'r cyflog wythnosol yng Nghasnewydd islaw cyfartaledd Cymru ac yn is nag o'r blaen gydag Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Casnewydd yn cael eu gorgynrychioli yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Cam Gweithredu 1

Mae rhaglen Dechrau'n Deg yng Nghasnewydd yn cael arian i weithio gyda 2712 o blant a'u teuluoedd bob blwyddyn. At hynny, mae 650 o blant yn cael 12.5 awr o ofal plant rhan-amser am ddim yn ardaloedd Dechrau'n Deg mewn 19 o leoliadau gofal plant. Mae lleoliad Dechrau'n Deg wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio cyllid allanol gan Lywodraeth Cymru yn ardal Maendy.

Mae dau grŵp chwarae cyfrwng Cymraeg wedi'u sefydlu ac rydym wedi llwyddo i recriwtio ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg. Mae nifer y plant sy'n trosglwyddo i ysgolion Cymraeg o'r grwpiau hyn yn cynyddu.

Mae'r rhaglen hefyd yn cynnig cymorth i deuluoedd sy'n agored i niwed drwy fenter bydwagedd Dechrau'n Deg a'r Rhaglen Iechyd Meddwl Amenedigol. Mae'r prosiectau hyn wedi llwyddo i ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd yng Nghasnewydd. Mae'r prosiect hefyd wedi llwyddo i gynyddu lefel yr oruchwyliaeth sydd ar gael i staff drwy greu swydd

newydd i swyddog Diogelu arweiniol. Mae dwy swydd i Swyddogion Cyflawni Anghenion Dysgu Ychwanegol hefyd wedi'u creu er mwyn darparu ymyriadau penodol wedi'u targedu yn y fan a'r lle mewn cartrefi.

Cam Gweithredu 2

Ar hyn o bryd mae nifer o raglenni gwaith sy'n cael eu cyflwyno er mwyn helpu myfyrwyr (yn enwedig y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol) i ddiwallu eu hanghenion dysgu. Mae'r gweithgarwch hwn wedi'i gefnogi drwy gydberthnasau gwaith agos rhwng ysgolion, y gwasanaeth iechyd a rhaglen Dechrau'n Deg yn ogystal â darparwyr addysg. CDC yw'r awdurdod arweiniol ar gyfer arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o hyd, yn unol â diwygiadau ehangach ym maes addysg.

Mae ysgolion yng Nghasnewydd hefyd yn monitro disgyblion sydd, ar wahanol adegau, yn gymwys ac anghymwys i gael prydau ysgol am ddim ac mae ysgolion uwchradd yn buddsoddi adnoddau yn y grŵp hwnnw

Mae'r awdurdod hefyd yn arloesi o ran defnyddio'r dull 'Un Plentyn, Un Cynllun' sy'n cyfuno cynlluniau datblygu nifer o adrannau unigol i lunio un cynllun cynhwysfawr sy'n ystyried eu holl anghenion dysgu. Mae'n argymhell mabwysiadu dull gweithredu hyblyg a all ymateb yn gyflym i'r anghenion sy'n newid sy'n gysylltiedig â phocedi o amddifadedd.

Cam Gweithredu 3

Mae Casnewydd wedi cael effaith sylweddol ar nifer y bobl ifanc sy'n NEET (nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) dros y chwe blynedd diwethaf. Yn 2011, nifer y bobl ifanc yng Nghasnewydd a adawodd flwyddyn 11 nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant oedd 6.7%. Erbyn 2014 roeddem wedi gostwng y ganran hon i 4.7%, erbyn 2015 3.1% oedd y ganran ac erbyn 2016 roedd wedi gostwng i'r lefel isaf erioed, sef 1.7%, sy'n ostyngiad o fwy na 75% dros gyfnod o chwe blynedd. Mae Casnewydd bellach yn gydradd 8fed o blith y 22 o Awdurdodau Lleol ac islaw cyfartaledd Cymru am y tro cyntaf.

Ymhlith y camau a gymerwyd mae:

- Datblygu a chefnogi Partneriaeth NEET Cyn-16 i ganolbwyntio ar atal.
- Y Rhwydwaith Darparwyr Dysgu sy'n sicrhau bod y cyflenwad cyfleoedd dysgu yn diwallu anghenion a bod lleoliadau ar gael ar yr adegau priodol.
- Pennu Gweithiwr Arweiniol drwy'r Grŵp Ymarferwyr 16-18
- Cydgysylltu timau mewnol Cyngor Dinas Casnewydd er mwyn helpu i ymgysylltu â phobl ifanc 'anhysbys' o fewn y system.
- Y Bartneriaeth NEET Ôl-16 sy'n canolbwyntio ar rannu gwybodaeth, darparu a datblygu cyfleoedd a digwyddiadau cyflogaeth/dysgu penodol.
- Gwaith dwys gyda darparwyr addysg a dysgu pellach er mwyn sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael ar bwyntiau trosglwyddo ar ôl addysg orfodol.

Cam Gweithredu 4

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2016-17, llwyddodd yr Academi Dysgu Seiliedig ar Waith i sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer dwy raglen a ariennir gan yr UE sy'n creu llwybrau i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio. Y rhaglenni hyn yw:

- Ysbrydoli i Weithio – sy'n targedu pobl ifanc sy'n trosglwyddo o addysg ysgol i ddysgu pellach neu gyflogaeth.
- Ysbrydoli i Gyflawni – sy'n targedu pobl ifanc 7-11 oed sydd mewn addysg amser llawn y nodwyd eu bod mewn perygl o fod yn NEET

CDC yw'r sefydliad arweiniol sy'n rheoli'r rhaglen ar gyfer rhanbarth De-ddwyrain Cymru, gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill, colegau Addysg Bellach a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Mae'r Academi Dysgu Seiliedig ar Waith wedi creu clybiau swyddi, cyrsiau hyfforddi a darpariaethau hyfforddi 13 wythnos pwrpasol i ddiwallu anghenion pobl ifanc sydd ond yn chwilio am waith. Mae'r rhaglenni hyn wedi targedu pobl ifanc 16-24 oed yn benodol.

Mae darpariaeth Teuluoedd yn Gyntaf a gyflwynir gan Wasanaethau Ieuenctid CDC yn gweithio mewn partneriaeth â rhaglen Ysbrydoli i Gyflawni Cronfa Gymdeithasol Ewrop i gynnig amrywiaeth o ddarpariaeth er mwyn lleihau effaith tlodi ar ddeilliannau addysgol. Mae hyn yn cynnwys ymyriadau gyda phobl ifanc i wella lefelau presenoldeb a chyrhaeddiad ac ymyriadau gyda'r teuluoedd ehangach i sicrhau y caiff pobl ifanc eu helpu i gyflawni.

Cam Gweithredu 5

Sefydlwyd Grŵp Cyflogadwyedd a Sgiliau yn 2016-17, sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn y ddinas. Y partneriaid yn y grŵp yw Coleg Gwent, Prifysgol De Cymru, CDC, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Newport City Homes, Pobl, y Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru. Mae'r bartneriaeth yn gweithio i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir gan y Cynllun Integredig Sengl sy'n ymwneud â'r economi a sgiliau, gan helpu pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n annog datblygu sgiliau, dysgu a chyflogadwyedd.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf hefyd wedi'u halinio i ymgysylltu â chymunedau a darparu amrywiaeth o wasanaethau cydgysylltiedig sy'n helpu pobl i ddod o hyd i waith.

Mae cyllid ar gyfer darpariaeth Sgiliau Hanfodol ym maes Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn parhau i gael ei ddiogelu ac mae rhaglen o gyrsiau yn y meysydd hyn ar gael i oedolion lle y nodir angen.

Yn ystod 2016-17 bu Academi Dysgu Seiliedig ar Waith Cyngor Dinas Casnewydd yn gweithio gyda phartneriaid i greu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a helpu pobl i mewn i waith. Mae mentrau wedi cynnwys:

- Ffair Swyddi Casnewydd – Ymwelodd mwy na 4,000 o bobl â Ffair Swyddi 2016 ac roedd 500 o swyddi gwag yn cael eu cynnig. Cynhaliwyd y digwyddiad mewn partneriaeth â'r Ganolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru, Cyngor Dinas Casnewydd a Friars Walk.
- Rhaglen Budd i'r Gymuned sydd wedi creu nifer o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, prentisiaethau a lleoliadau.

Amcan Cydraddoldeb 5

Cymunedau Cydlynus a Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb	
<i>Cymru o gymunedau cydlynus</i>	
Mae gan bobl ymdeimlad o berthyn i'r ddinas ac maent yn teimlo'n ddiogel.	
Cam Gweithredu 1	Byddwn yn annog ac yn cefnogi mentrau sy'n cynnig cyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau amrywiol yng Nghasnewydd.
Cam Gweithredu 2	CDC i barhau i gefnogi'r Fforwm Troseddau Casineb er mwyn codi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, cynyddu nifer yr achosion o droseddau casineb y rhoddir gwybod amdanynt a darparu ymateb amlasiantaeth i achosion risg uchel.
Cam Gweithredu 3	Byddwn yn cydgysylltu dull partneriaeth o roi gwybod am achosion o fwlio sy'n seiliedig ar ragfarn a mynd i'r afael â hyn mewn ysgolion ac yn ceisio chwarae rôl ragweithiol wrth herio ragfarn.
Cam Gweithredu 4	Byddwn yn hyrwyddo cyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o fewnfudo a chynnwys ceiswyr lloches, ffoaduriaid ac ymfudwyr gan ganolbwyntio ar brofiadau cyffredin holl drigolion Casnewydd waeth beth fo'u statws o ran fewnfudo neu eu hethnigrwydd.

Crynodeb

Dros y 12 mis diwethaf, mae CDC wedi parhau i gyflwyno rhaglen Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru fel rhan o raglen waith Cymunedau Cydlynus. Rydym wedi cyflawni canlyniadau eang eu cwmpas gan gynnwys Troseddau Casineb, Caethwasiaeth Fodern, Atal Eithafiaeth Dreisgar, ymfudo yn ogystal â chwarae rôl ragweithiol wrth helpu i adleoli ffoaduriaid o Syria o dan raglen y Swyddfa Gartref ar gyfer Adsefydlu Pobl sy'n Agored i niwed.

Caiff y gwaith hwn ei fonitro hefyd drwy grŵp thema 'Diogel a Chydlynus' ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cam Gweithredu 1

Mae Casnewydd yn gartref i boblogaeth amrywiol ac fel awdurdod rydym yn credu ei bod yn bwysig annog a chefnogi mentrau sy'n cynnig cyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth. Isod ceir rhestr o'r digwyddiadau y mae'r awdurdod wedi'u cefnogi dros y 12 mis diwethaf. Dros oes y strategaeth byddwn yn ceisio cynyddu amrywiaeth y digwyddiadau rydym yn eu cefnogi er mwyn sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir gennym yn well.

- Offeren Ddinesig: mis Ebrill
- Coelcerth Dathlu Pen-blwydd y Frenhines yn 90 oed: mis Ebrill
- Parêd a Gwasanaeth Coffa Dydd D mis Mehefin
- Gŵyl Maendy: mis Gorffennaf
- Diwrnod Chwifio'r Faner ar gyfer y Llynges Fasnachol: mis Medi
- Parêd ac Ail-greu Mudiad y Siartwyr i Blant: mis Tachwedd
- Parêd a Gwasanaeth Sul y Cofio: mis Tachwedd
- Cynnau'r Goleuadau Nadolig: mis Tachwedd
- Diwrnod Coffáu'r Holocaust: mis Ionawr
- Chwifio'r Faner dros y Gymanwlad: mis Mawrth

- Rainbow Newport (Cynhadledd i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT))

Cam Gweithredu 2

Mae gan Fforwm Troseddau Casineb Dwyrain Gwent aelodau o wahanol asiantaethau o Gasnewydd a Sir Fynwy. Rôl y fforwm yw trafod ystadegau Troseddau Casineb a thueddiadau yn ogystal â phryderon eraill a'i brif ffocws yw codi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a chynyddu nifer yr achosion o droseddau casineb y rhoddir gwybod amdanynt. Mae cyfleuster adrodd trydydd partiön wedi'i sefydlu er mwyn helpu'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd delio â'r heddlu.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae nifer y Troseddau Casineb y rhodddwyd gwybod amdanynt wedi bod yn gymharol sefydlog ond cynyddodd y llynedd, yn dilyn refferendwm yr UE. Er bod cydberthynas rhwng y cynnydd sydyn yn nifer yr achosion a'r refferendwm, mae hefyd yn haws i bobl gysylltu â chyfleusterau adrodd trydydd parti sy'n ei gwneud yn bosibl i ddata gael eu casglu gan ddioddefwyr nad ydynt, o bosibl, wedi rhoi gwybod am achosion drwy'r heddlu yn draddodiadol. Mae ymgyrchoedd penodol hefyd wedi'u cynnal er mwyn annog pobl i roi gwybod am achosion o droseddau casineb gan gynnwys rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r mater yn ystod Wythnos Troseddau Casineb, gweithdai gyda sefydliadau megis Tell MAMA a Chymorth i Ddioddefwyr. Mae grŵp ymdrin ag achosion amlasiantaeth a gydgyssylltir gan Heddlu Gwent yn parhau i reoli achosion risg uchel.

Mae CDC hefyd wedi cefnogi'r safbwynt 'dim goddefgarwch o ran troseddau casineb' ac wedi nodi camau lleol i'w cymryd ar lefelau aelod etholedig, swyddog a phartneriaeth.

At hynny, bu'n gweithio gyda Fforwm Ieuencid Casnewydd a Fforwm Ieuencid Cartrefi Dinas Casnewydd er mwyn codi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a systemau adrodd ac mae wedi ymchwilio i gyfleoedd i ehangu ymgysylltiad.

Cam Gweithredu 3

Bu'r Grŵp Llesiant Addysg ar waith ers dwy flynedd bron. Rôl y grŵp hwn yw adolygu data ar ddigwyddiadau sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig yn ogystal â chynnydd ysgolion drwy Wobrau Ysgolion Iach, cyfranogiad, a datblygiad mentrau i hyrwyddo Llesiant ym mhob rhan o'r ysgol.

Y nodweddion gwarchoddedig sydd â'r nifer fwyaf o ddigwyddiadau yw'r rhai sy'n ymwneud â hil, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol. Caiff ysgolion gymorth i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae hyn yn cynnwys cymorth gan GEMS, mentrau Stonewall, gweithdai Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth a chyfiawnder adferol. Mae mentrau eraill yn cynnwys gweithdai gwrthfwlio a gyflwynir gan Crucial Crew, Positive Structured Playtime drwy Ysgolion Iach, ysgolion sy'n ystyriol o ofynion disgyblion ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistiaeth.

Mae gweithdy parhaus yn cael ei gynnal ar bresenoldeb a gwahardd oherwydd bwlio a chyflwynir adroddiad arno i grŵp 'Pob Plentyn' am mai diffiniad ESTYN o lesiant yw 'presenoldeb yn yr ysgol'.

Cam Gweithredu 4

Rydym wedi ymateb i geisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth am wybodaeth am nifer y bobl sy'n ceisio lloches a, lle y bo'n briodol, y nifer mewn categorïau penodol o bobl sy'n ceisio lloches. Rydym wedi cynnull cyfarfodydd o'r Fforwm Ymfudo y mae cymysgedd o

sefydliadau yn y sector statudol, y sector gwirfoddol a'r sector preifat o ardaloedd Casnewydd ac ymhellach i ffwrdd yn dod iddynt. Rydym wedi rhannu gwybodaeth am amrywiaeth eang o ddigwyddiadau yn ardal Casnewydd ac ymgynghoriadau CDC â chynrychiolwyr sefydliadau yn y sector statudol a'r sector gwirfoddol a thrigolion unigol yng Nghasnewydd ac wedi cyfrannu at noson a drefnwyd yn unswydd i roi gwybodaeth i ofalwyr maeth am loches ac ymfudo.

Mae Casnewydd yn parhau i gyflawni eu hymrwymadau fel Ardal Wasgaru ac mae gwneud cryn ymdrech i wella'r broses caffael eiddo ar gyfer tai ceiswyr lloches.

Hefyd, mae protocolau newydd wedi bod yn cael eu datblygu ledled Cymru mewn perthynas â llety mechnïaeth, sy'n broses a gychwynwyd gan CDC.

Mae Casnewydd hefyd yn cymryd rhan yn rhaglen Adleoli Ffoaduriaid o Syria ac wedi ymrwmo i adleoli 50 o aelwydydd dros oes y rhaglen (h.y. 5 mlynedd). Hyd yma rydym wedi cael ein tair aelwyd gyntaf ac mae tîm cymorth wedi'i sefydlu i ddarparu'r cymorth integreiddio. Ariennir y rhaglen yn llawn gan y Swyddfa Gartref.

Amcan Cydraddoldeb 6

Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	
<i>Cymru o gymunedau cydlynus</i>	
Caiff pobl sy'n dioddef cam-drin domestig neu sy'n ei weld eu cynorthwyo gan y Cyngor a'i bartneriaid yn eu sefyllfa bresennol, a thrwy unrhyw newidiadau y maent am eu gwneud.	
Cam Gweithredu 1	Datblygu'r Uned Cam-drin Domestig amlasiantaeth ymhellach
Cam Gweithredu 2	Cyflwyno hyfforddiant ar ymwybyddiaeth a phrosesau atgyfeirio <ul style="list-style-type: none"> • Priodas dan Orfod / Trais yn seiliedig ar anrhydedd / Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod • Cam-drin domestig • MARAC (cynadleddau asesu risg amlasiantaeth) • DASH (Adnodd ar gyfer cam-drin domestig, stelcian ac aflonyddu) • Deddfwriaeth 'Gofyn a Gweithredu'
Cam Gweithredu 3	Adolygu'r canlynol a'u datblygu ymhellach: <ul style="list-style-type: none"> • Strategaeth Cam-drin Domestig i Gasnewydd a Chynllun Gweithredu, • Cyfeirlyfr gwasanaethau cam-drin domestig • System TG ar gyfer Galwadau Cynadledda am Achosion o Gam-drin Domestig

Crynodeb

Mae cam-drin domestig yn her fawr i wasanaethau cyhoeddus. Mae'n rhoi pwysau sylweddol, costus a chynyddol ar awdurdodau lleol, yr heddlu, y sector iechyd, y sector tai a gwasanaethau cymorth eraill.

Yn ogystal â chostau ariannol cam-drin domestig, mae iddo oblygiadau hirdymor i ddinasyddion sy'n ei dioddef, sy'n ei weld neu sy'n ei gyflawni. Yn dilyn nifer o adolygiadau lleol a oedd yn ymwneud â chynllunio strategol a gweithredol a darparu gwasanaethau cam-drin domestig ledled Gwent, nodwyd bod datblygu dull gweithredu rhanbarthol clir ac atebol yn flaenoriaeth. Dros y 12 mis diwethaf, buom yn adeiladu ar y weledigaeth a nodwyd yn ystod Prosiect Braenaru Gwent, sef cydweithio er mwyn deall, cynllunio, cydgysylltu, comisiynu ac adolygu gwasanaethau cam-drin domestig effeithiol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

Cam Gweithredu 1

Mae'r Uned Cam-drin Domestig yn parhau i weithredu fel canolfan amlasiantaeth gan gynnig siop un stop i ddiodefwyr. Yn ogystal â darparu canolfan i gynnal cyfarfodydd wythnosol MARAC, mae agosrwydd gwasanaethau Cam-drin Domestig â thimau perthnasol o'r Cyngor h.y. cyngor ar dai, budd-daliadau, gwasanaethau cymdeithasol wedi'i gwneud yn bosibl i gynlluniau cymorth gael eu datblygu mewn llai o amser. Ar hyn o bryd mae'r uned wedi'i lleoli mewn adeilad sy'n darparu nifer o wasanaethau gwahanol, sy'n golygu y gall diodefwyr aros yn anhysbys. Ymhlith y sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn yr Uned Cam-drin Domestig amlasiantaeth mae Cymorth i Ferched, Llamau a BAWSO.

Yn ystod y flwyddyn ariannol cofnodwyd 3,863 o achosion o gam-drin domestig yng Nghasnewydd, sy'n cyfateb i 33% o'r holl achosion ledled Gwent. Cydgysylltodd CDC 166 o Gynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC). Mae hyn yn cyfateb i 42% o'r holl gynadleddau MARAC a gynhaliwyd ledled Gwent.

Cam Gweithredu 2

Mae'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn dal i gael ei ddatblygu a'i roi ar waith:

Mae'r pecyn E-ddysgu bellach yn cael ei gyflwyno ym mhob un o'r awdurdodau perthnasol yng Ngwent. Fodd bynnag, rhoddwyd gwybod am broblemau mawr o ran cael mynediad i'r system, sydd wedi rhwystro cynnydd. Felly, mae pob awdurdod perthnasol yn nodi nad ydynt wedi cyrraedd y targed o 50% o'u staff ar gyfer 2016-17 – mae hyn yn cynnwys Casnewydd. Ymdrinnir â materion mynediad ac mae nifer y staff sy'n cwblhau'r pecyn e-ddysgu yn parhau i gynyddu. Mae adnodd Wyneb yn Wyneb wedi'i gomisiynu a bydd hefyd ar gael i staff heb fynediad at gyfrifiadur.

Gofyn a Gweithredu – cynhaliwyd rhaglen hyfforddi beilot rhwng mis Medi 2016 a mis Mawrth 2017. Mae cryn dipyn wedi'i ddysgu mewn perthynas â chynnwys a'r model cyflawni ar gyfer hyfforddiant Grŵp 2 a 3. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn cydnabod bod angen profi hyn ymhellach. Erbyn hyn mae angen profi'r model ymhellach a hyfforddi ac achredu hyfforddwyr awdurdodau perthnasol fel bod yr hyfforddwyr hyn yn cyfrannu at y gwaith o ddarparu hyfforddiant yn y dyfodol - cydnabyddir bod rhwystrau sydd wedi atal staff awdurdodau perthnasol rhag cael eu hachredu, ac ymdrinnir â'r materion hyn hefyd yn y flwyddyn newydd.

Mae cyrsiau a chymwysterau sector arbenigol ar gael i staff a rheolwyr.

Cam Gweithredu 3

Adolygwyd ac arsylwyd cynadleddau MARAC gyda SafeLives. Caiff y canfyddiadau a'r argymhellion eu bwydo i mewn i is-grŵp DACC/MARAC y chwarter nesaf er mwyn iddynt gael eu gweithredu yn 2017-18.

Mae'r Tîm Rhanbarthol yn parhau i helpu Spectrum i ddarparu sesiynau mewn lleoliadau Addysg. Mae'r tîm rhanbarthol wedi ymweld â nifer o ysgolion ledled y rhanbarth gyda phrosiect Spectrum er mwyn cwmpasu arferion da a nodi meysydd i'w datblygu ymhellach y gellir eu hystyried yn fanylach yng nghyfarfodydd Grŵp Diogelu mewn Addysg De-ddwyrain Cymru.

Mae'r gwaith ar asesu anghenion a'r broses o ddatblygu'r strategaeth ranbarthol wedi dangos bod angen gwella holl brosesau casglu data ac adrodd VAWDASV. Bydd angen i'r rhanbarth ddatblygu mesurau a dangosyddion ranbarthol yn unol â'r Mesurau a Dangosyddion Cenedlaethol (pan gânt eu cyhoeddi) a sefydlu'r fframwaith cofnodi perfformiad ranbarthol yn unol â Strategaeth VAWDASV Ranbarthol.

Prynwyd cyfarpar Gwella Diogelwch ar gyfer pob ardal leol yng Ngwent a chafodd ei ddarparu/storio yn y canolfannau Amlasiantaethol/Siopau Un Stop ledled y Rhanbarth. Mae hyn yn cynorthwyo staff cymorth sy'n gweithio gyda dioddefwyr drwy sicrhau y gallant gael gafael ar gyfarpar sy'n diwallu anghenion y dioddefwr yn hawdd ac yn amserol ac mae'n sicrhau ymateb cyson gan wasanaethau ledled y Rhanbarth i'r penderfyniad i wella diogelwch.

Amcan Cydraddoldeb 7

Digartrefedd <i>Cymru o gymunedau cydlynus</i>	
Darparu amgylchedd diogel, cefnogol, grymusol ac anfeirniadol ar gyfer pobl ddigartref a phobl wedi'u hymyleiddio fel y gallant gyflawni eu potensial	
Cam Gweithredu 1	Gweithredu rhaglen grant Cefnogi Pobl a ariennir gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu a chefnogi pobl a allai fod yn agored i niwed a phobl wedi'u hymyleiddio i fyw'n annibynnol o fewn y gymuned
Cam Gweithredu 2	Atal digartrefedd lle y bo'n briodol
Cam Gweithredu 3	Meithrin gwydnwch pobl i ymdrin â digwyddiadau annisgwyl, straen ac ansicrwydd yn eu bywydau
Cam Gweithredu 4	Helpu pobl i ddatblygu sgiliau ar gyfer bywyd er mwyn ffynnu'n annibynnol

Crynodeb

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi parhau i weithio i fynd i'r afael â digartrefedd yn y ddinas yn wyneb amgylchiadau economaidd heriol a galw cynyddol am wasanaethau. Mae'r sefyllfa o ran digartrefedd yn newid drwy'r amser ac mae'r awdurdod wrthi'n rhoi nifer o wasanaethau newydd ar waith mewn ymateb i'r realiti hwn. Dros oes y strategaeth hon bydd yr awdurdod yn ceisio mabwysiadu dull mwy rhanbarthol o fynd i'r afael â digartrefedd.

Cam Gweithredu 1

Yn ystod y 12 mis diwethaf cyflawnodd Tîm Cefnogi Pobl y Gwasanaethau Cymdeithasol gymysgedd o waith a oedd eisoes yn mynd rhagddo a chyflwynodd gynlluniau a chynlluniau peilot newydd yn lleol ac yn rhanbarthol. Cafodd y tîm fwy na 3,200 o atgyfeiriadau i'w wasanaethau llety a chymorth fel y bo'r angen yn 2016/17, sy'n gynydd o 10% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae rhaglenni eraill yn cynnwys:

- Dechreuodd y Gweithiwr Cymorth Cynhwysiant Ariannol gymryd atgyfeiriadau ym mis Medi 2016 ac mae wedi cael 62 hyd at ddiwedd y flwyddyn. Llwyddwyd i ennill dros £120m o incwm ychwanegol yn ogystal â dileu dyledion gwerth £12k.
- Mae'r Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr trawsawdurdod wedi'i werthuso a chrëwyd swydd ychwanegol i weithiwr cymorth fel y bo'r angen.
- Crëwyd swydd ran-amser ychwanegol i Weithiwr Cymorth i Ffoaduriaid er mwyn cynorthwyo'r swydd bresennol oherwydd y galw cynyddol
- Ymestynnwyd cynllun peilot Cefnogi Mewnfudwyr am y flwyddyn gyfan er mwyn gallu cynnal gwerthusiad llawnach
- Crëwyd cynllun peilot Galw Heibio gyda BAWSO er mwyn galluogi gweithiwr cymorth rhan-amser i helpu merched a dynion gyda phroblemau yn ymwneud â cham-drin domestig a phroblemau eraill
- Cynyddwyd y gyllideb ar gyfer gwasanaethau dehongli a chyfieithu gyda Language Line, i gyd-fynd â chyflwyno rhagor o wasanaethau
- Yn ystod y flwyddyn manteisiodd 350 o bobl sy'n agored i niwed ar amrywiaeth o gynlluniau tai â chymorth penodol yn y ddinas
- Ailddatblygwyd cynllun Tŷ Eirlys er mwyn darparu mwy o lety hunangynhwysol, annibynnol a chymorth i 13 o bobl ag anabledau dysgu (agorodd 3 Ebrill 2017)

- Sicrhawyd cyllid gan Gwent Mwy Diogel/Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ar gyfer prosiect cymorth alcohol parhaus Bwrdd y Cynllun Integredig Sengl ar gyfer yfwr ar y stryd er mwyn cyfrannu at gost cyflogi gweithiwr cymorth fel y bo'r angen/allgymorth
- Yn 2016/17 cofrestrodd 263 o ddefnyddwyr gwasanaeth ychwanegol, a oedd yn byw yn eu cartrefi eu hunain neu'n rhentu gan landlord preifat, ar gyfer gwasanaeth larwm Lifeline Merthyr Tudful
- Dyfarnwyd oriau ychwanegol o gymorth i gynllun Cefnogi Pobl Hŷn Arbenigol y Gwasanaeth Gofal a Thrwsio i gyflogi gweithiwr cymorth rhan-amser
- Yn yr un modd, dyfarnwyd oriau ychwanegol o gymorth i alluogi Cynllun Colli Cof Reach i ymdopi â'r galw cynyddol
- Crëwyd swydd Gweithiwr Llety a Chymorth Pobl Ifanc i helpu'r Timau Llwybrau Plant gyda materion tai

Cam Gweithredu 2

Mae gwaith ychwanegol yn parhau tuag at atal digartrefedd gyda'r Cyngor yn atal digartrefedd mewn 49% o achosion lle mae unigolion mewn perygl o fod yn ddigartref o fewn 56 o ddiwrnodau.

Mae cyfanswm o 2104 o unigolion wedi cysylltu â'r cyngor i ofyn am gymorth am eu bod yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref o fewn 56 o ddiwrnodau yn ystod y flwyddyn ariannol gyfan. Mae'r pwysau ar wasanaethau yn dal i fod yn gymharol gyson ac yn cyd-fynd, fwy neu lai, â'r amcanestyniadau a amcangyfrifwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Fodd bynnag, mae costau cynyddol sy'n gysylltiedig ag atal digartrefedd ac mae hyn yn cael ei fonitro'n agos ac mae opsiynau eraill yn cael eu hystyried er mwyn ceisio galluogi teuluoedd i aros yn eu cartrefi neu sicrhau llety amgen lle mae hynny'n fwy priodol.

Bydd gwaith gweithredol yn parhau i gael ei gyflawni ac, ochr yn ochr â hyn, mae'r camau canlynol yn cael eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd:

- Mae adolygiad o faes digartrefedd wedi dechrau yn y 4ydd Chwarter a bydd yn parhau yn y flwyddyn ariannol nesaf gyda'r nod o fabwysiadu strategaeth ddigartrefedd erbyn dechrau 2018. Bydd hyn yn ymgorffori dull gweithredu a strategaeth ranbarthol er mwyn darparu cymaint o wasanaethau â phosibl a gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau cyfyngedig
- Adolygu polisi dyraniadau Home Options Newport
- Mae Grŵp Llety Pobl Ifanc (YPAG) wedi'i sefydlu ac mae cynllun gweithredu yn cael ei fireinio a'i ddatblygu
- Datblygu cynllun peilot rhannu fflat gyda Chymdeithasau Tai partner a phartneriaid yn y sector gwirfoddol (defnyddiwyd nifer o eiddo fel rhan o'r cynllun peilot)
- Parhau i ddarparu gwasanaethau gweithredol yn rhagweithiol gyda phartneriaid er mwyn ceisio atal digartrefedd

Camau 3 a 4

Yn ogystal â'r datblygiadau uchod, mae gwasanaethau Cymorth Tenantiaeth a ddarperir gan TASA o'r tu mewn i'r Cyngor wedi addasu er mwyn darparu gwaith ymyrryd mewn argyfwng ar gyfer aelwydydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, gan weithio ochr yn ochr â staff eraill yn Uned Anghenion Tai'r Cyngor er mwyn atal digartrefedd yn ogystal â chysylltu â gwasanaethau cymorth eraill sydd ar gael.

Amcan Cydraddoldeb 8

Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg <i>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</i>	
Amcan a chanlyniad	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghasnewydd
Cam Gweithredu 1	Cynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd i hyrwyddo Safonau'r Gymraeg, a rolau a chyfrifoldebau staff, Aelodau a'r cyhoedd
Cam Gweithredu 2	Gwneud y defnydd gorau o systemau'r cyngor er hwyluso'r broses o ddewis iaith
Cam Gweithredu 3	Gweithio gyda phartneriaid er mwyn helpu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghasnewydd
Cam Gweithredu 4	Datblygu gwasanaeth cyfieithu i gyflogeion Cyngor Dinas Casnewydd a helpu cyflogeion i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle

Crynodeb

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ei Hysbysiad Cydymffurfio. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i'r awdurdod gydymffurfio â 174 o safonau sy'n nodi'r ffordd y dylem helpu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghasnewydd. Daeth y rhan fwyaf o'r safonau i rym ar 30 Mawrth 2016 gyda mwyafrif y safonau eraill yn dod i rym o 30 Medi 2016.

Dros y 12 mis diwethaf mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da tuag at gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan ddyrannu cyllideb a rhoi trefniadau rheoli a llywodraethu prosiect ar waith er mwyn gwneud y newidiadau angenrheidiol. Mae Aelodau Etholedig ac Uwch Swyddogion yn hyrwyddo dwyieithrwydd ac mae staff rheng flaen bellach yn croesawu'r cyhoedd yn ddwyieithog. Hefyd, mae gwasanaeth cyfieithu am ddim wedi'i ddatblygu sydd ar gael yn hawdd i'w ddefnyddio gan aelodau o staff.

Bydd ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn cynnwys nid yn unig strategaeth well ar gyfer cyfathrebu â staff a phwyslais ar brofi cadernid, ond hefyd ymgysylltu â'r cyhoedd.

Cam Gweithredu 1

Datblygwyd y Strategaeth Cyfathrebu drwy Gyfrwng y Gymraeg ar ddiwedd 2015 er mwyn hysbysu cyflogeion, Aelodau a'r cyhoedd am rolau a chyfrifoldebau CDC. Nod y strategaeth yw cyrraedd pob aelod o staff gan ddefnyddio briffiadau rheolaidd, fideo hyrwyddo corfforaethol, posteri, delwedd bwrdd gwaith, arwyddion pabell â chyfarchion dwyieithog, dogfennau canllaw ar ddarparu gwasanaethau, tudalennau ar y fewnwyd ac ati. Mae cyfanswm o 167 o swyddogion wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg rhwng 2015 a 2017.

Mae gan gynrychiolwyr o bob maes gwasanaeth rôl ffurfiol hefyd drwy Grŵp Gweithredu'r Gymraeg y cyngor. Mae'r grŵp hwn yn helpu i hwyluso'r broses o roi safonau penodol ar waith ym meysydd gwasanaeth gwahanol yr awdurdod.

Mae'r awdurdod wedi ymgynghori â'r cyhoedd, yn ogystal â rhanddeiliaid y Gymraeg, ynghylch y Strategaeth Iaith Gymraeg 5 Mlynedd ar gyfer Casnewydd, ac mae eu barn wedi

cael dylanwad mawr ar ein hymrwymiadau i hyrwyddo'r iaith yng Nghasnewydd. Cymeradwywyd y Strategaeth gan y Cyngor ym mis Mawrth 2017.

Cam Gweithredu 2

Mae gennym nifer fawr o systemau sy'n dal gwybodaeth am bobl mewn perthynas â gwasanaethau gwahanol, y mae llawer ohonynt yn fawr iawn ac yn dal hyd at 250,000 o endidau ar wahân. Lle y gallwn gofnodi dewis iaith rydym wedi diwygio'r systemau hyn ac yn parhau i ofyn i bobl nodi eu dewis iaith er mwyn gwella'r gwasanaethau a gynigir gennym. Lle y gallwn ddarparu gwasanaethau yn newis iaith pobl rydym yn gwneud hynny, er ein bod yn parhau i ohebu'n ddwyieithog mewn llawer o achosion.

Yn ystod y flwyddyn i ddod (2017/18) mae CDC yn gobeithio rhoi system Rheoli Cydberthnasau â Chwsmeriaid newydd ar waith a fydd yn cofnodi cwynion a dewis iaith yn well.

Cam Gweithredu 3

Yn y flwyddyn ariannol 2017/18, caiff cytundebau lefel gwasanaeth yr awdurdod eu hadolygu er mwyn sicrhau ein bod yn trosglwyddo ein rhwymedigaethau o ran y Gymraeg i'n partneriaid. Mae canllawiau mwy cyffredinol hefyd yn cael eu llunio er mwyn sicrhau bod staff a chontractwyr yn deall eu rhwymedigaethau o dan Safonau'r Gymraeg yn llawn.

Wrth ymgynghori ynghylch Strategaeth Iaith Gymraeg 5 Mlynedd Casnewydd rydym wedi ymgysylltu â nifer o bartneriaid, ac yn y strategaeth mae gennym amcan sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â phartneriaid yn y dyfodol, gan ystyried sut y gallem eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg a'i hyrwyddo. Wrth ddatblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft rydym hefyd wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid y Gymraeg a fydd yn cymryd rhan yn y broses o'i roi ar waith.

Cam Gweithredu 4

Mae'r awdurdod wedi sefydlu gwasanaeth cyfieithu deudrac sy'n darparu cyfieithiadau byr (llai na 500 o eiriau) a chyfieithiadau hwy (mwy na 500 o eiriau). Gall pob aelod o staff y cyngor y mae angen iddo gael cyfieithiadau proffesiynol o ddogfennau ddefnyddio'r system. Er mwyn hwyluso'r broses gyfieithu ymhellach, telir cost gwaith cyfieithu o gyllideb a ddelir yn ganolog yn hytrach na gan y tîm unigol o gyllideb y gwasanaeth. Mae ymgysylltiad staff â dosbarthiadau Cymraeg hefyd wedi bod yn gadarnhaol. Yn ystod y flwyddyn ariannol, cofrestrodd 12 aelod o staff ar gyfer cwrs blasu deuddydd ac mae 27 o aelodau eraill o staff wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau blwyddyn hwy. Byddwn yn monitro'r cynnydd yn y niferoedd hyn dros y flwyddyn ariannol nesaf.

Amcan Cydraddoldeb 9

Cydymffurfiaeth Gorfforaethol <i>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</i>	
Arweiniad strategol, trefniadau llywodraethu, sicrhau bod safonau yn uchel ac yn gyson ym mhob rhan o'r cyngor a'i ardaloedd	
Cam Gweithredu 1	Monitro perfformiad, gan gynnwys boddhad cwsmeriaid, drwy'r Grŵp Cydraddoldeb Strategol
Cam Gweithredu 2	Cyflwyno adroddiadau bob blwyddyn ar gydraddoldeb a'r Gymraeg gerbron y Cabinet a'r Uwch Dîm Arwain a chyhoeddi adroddiadau perthnasol ar wefan y cyngor
Cam Gweithredu 3	Mae gwefannau yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb: <ul style="list-style-type: none">• Aseidiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb• Adroddiadau blynyddol ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg• Data poblogaeth a chyflogaeth ar gydraddoldeb a'r Gymraeg
Cam Gweithredu 4	Cynigir yr holl hyfforddiant a chanllawiau perthnasol i gyflogeion y Cyngor er mwyn hwyluso cydymffurfiaeth â deddfwriaeth ynglŷn â chydraddoldeb, hawliau dynol a'r Gymraeg
Cam Gweithredu 5	Adolygu gweithdrefnau caffael, grantiau a nawdd er mwyn prif-ffrydio gofynion o ran cydraddoldeb a gofynion o ran y Gymraeg

Crynodeb

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf mae'r awdurdod wedi parhau i ddangos ei ymrwymiad i dryloywder drwy gyhoeddi gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb ar-lein ac atebolrwydd drwy gyflwyno adroddiadau yn systematig i'r Grŵp Cydraddoldeb Strategol. Yn y dyfodol, bydd yr awdurdod yn ceisio datblygu'r cymorth y mae'n ei gynnig i staff, gan hwyluso cydymffurfiaeth barhaus, a sicrhau bod lle cadarn yn ein proses gaffael i'n dyletswyddau sector cyhoeddus mewn perthynas â chydraddoldeb, y Gymraeg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cam Gweithredu 1

Mae'r Grŵp Cydraddoldeb Strategol wedi cyfarfod bob chwarter er mwyn adolygu'r camau gweithredu a chynnydd yn erbyn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Adolygir pob amcan o leiaf unwaith y flwyddyn a bydd y gwaith hwn yn parhau ym Mlwyddyn 2.

Cam Gweithredu 2

Bydd yr awdurdod yn parhau i gyhoeddi pob adroddiad blynyddol sy'n ymwneud â'r Gymraeg a Chydraddoldeb ar y dudalen 'Cydraddoldebau a'r Iaith Gymraeg' ar [wefan](#) Cyngor Dinas Casnewydd. Cymeradwyir yr adroddiadau hyn gan y cabinet a'r Uwch Dîm Arwain.

Cam Gweithredu 3

Er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol o ran cyhoeddi asesiad o'r effaith ar degwch a chydraddoldeb, mae'r awdurdod hefyd wedi cymryd camau i wella'r ffordd y mae staff yn cyflwyno asesiadau o'r fath i'w cyhoeddi. Yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod, cyflwynir asesiadau yn ganolog i un cyfeiriad e-bost, lle y bydd aelodau penodol o staff yn gallu bwrw golwg drostynt a'u hanfon ymlaen i'w cyhoeddi. Gellir defnyddio'r e-bost hwn hefyd i gyflawni swyddogaeth debyg ar gyfer asesiadau o hyfforddiant iaith Gymraeg, y mae gennym ddyletswydd i'w cyhoeddi bellach o dan safonau'r Gymraeg.

Bydd yr awdurdod yn parhau i gyhoeddi pob adroddiad blynyddol sy'n ymwneud â'r Gymraeg a Chydraddoldeb ar y dudalen 'Cydraddoldebau a'r Iaith Gymraeg' ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.

Yn yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb, mae adran ar ddata staff sy'n ymwneud â'r Gymraeg a Chydraddoldeb. Mae'r data hyn yn darparu cymhariaeth rhwng amrywiaeth ein staff ac amrywiaeth y ddinas yn fwy cyffredinol.

Cam Gweithredu 4

Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod yn cynnig 'Cyflwyniad i Gydraddoldeb' a 'Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg' i staff. Bwriedir i'r sesiynau hyn hyrwyddo ymwybyddiaeth gyffredinol o faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a Chydraddoldeb, tra'n rhoi gwybodaeth i staff hefyd am ble y gallant fynd i gael rhagor o gyngor ar gydymffurfiaeth.

Ar hyn o bryd mae'r awdurdod yn bwriadu adolygu ei ddarpariaeth yn unol â thirwedd cydraddoldeb sy'n newid.

Cam Gweithredu 5

Caiff gweithdrefnau sy'n ymwneud â chaffael, grantiau a nawdd eu hadolygu yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18 er mwyn sicrhau ein bod ni, fel awdurdod, yn parhau i drosglwyddo'r dyletswyddau sector cyhoeddus sydd gennym o dan ddeddfwriaeth ynglŷn â'r Gymraeg a Chydraddoldeb a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Data Cydraddoldeb: o gasglu data i ddarparu gwasanaethau

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn defnyddio data ar bob cam o'i broses gwneud penderfyniadau ac yn ystyried bod data yn adnodd hollbwysig i gyflawni ei ddyletswyddau sector cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal a chydberthnasau cymunedol da, gan ein helpu hefyd i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth. Bydd yr adran hon yn ystyried ein data cydraddoldeb mewn tri cham, sef:

- Casglu data; y ffordd y mae'r awdurdod yn casglu data ar nodweddion gwarchoddedig, y Gymraeg a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Gwerthuso data; y ffordd y mae'r awdurdod yn defnyddio data drwy ein prosesau mewnol fel Asesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb
- Defnyddio data; y ffordd y mae'r awdurdod yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb i bennu cyfeiriad strategol a chyflawni ein hamcanion cydraddoldeb

Casglu Data: creu darlun

Mae casglu gwybodaeth fanwl gywir am ein cwsmeriaid yn allweddol i ddarparu gwasanaethau gwyach. Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn casglu data cydraddoldeb mewn nifer o ffyrdd a ddefnyddir wedyn i lywio'r gwasanaethau a ddarperir gennym. Fel awdurdod rydym wedi datblygu systemau cadarn sy'n casglu llawer iawn o ddata meintiol drwy ein CRM a'r cronfeydd data eraill sy'n gysylltiedig â gwasanaethau unigol. Rydym hefyd yn casglu data ansoddol drwy ein hymarferion allgymorth ac ymgynghori, sy'n ein helpu i ddeall sut mae unigolion o wahanol grwpiau yn defnyddio'r gwasanaethau a gynigir gennym.

Systemau/Casglu data

Mae'r awdurdod yn defnyddio nifer o systemau gwahanol fel y gall ei amrywiol wasanaethau greu darlun a phroffil o'i gwsmeriaid. Defnyddir y data hyn wedyn i ddatblygu cynlluniau maes gwasanaeth a rhaglenni gwaith.

Fodd bynnag, fel y nodwyd o dan Amcan Cydraddoldeb 8, Cam Gweithredu 2, mae'r awdurdod wedi'i chael hi'n anodd datblygu un system ar gyfer cofnodi dewis Iaith Gymraeg. Am ein bod yn defnyddio systemau gwahanol ni fu'n bosibl i ni newid systemau yn unffurf er mwyn cofnodi dewis iaith. Os na fu'n bosibl i ni ddiwygio system, rydym yn anfon gohebiaeth ddwyieithog. Byddwn yn ceisio ailystyried canllawiau i staff ar gasglu a defnyddio data perthnasol ar gydraddoldeb yn unol â diwygio proses Asesu'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb.

Yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod (2017/18) mae'r awdurdod yn bwriadu integreiddio system newydd ar gyfer Rheoli Cydberthnasau â Chwsmeriaid a fydd yn cofnodi dewis iaith ein cwsmeriaid yn well.

Ymgynghoriadau

Eleni ymgynghorodd Cyngor Dinas Casnewydd â 5868 o unigolion ynghylch amrywiaeth o faterion o ddiogelwch cymunedol ym Mhillgwenlli i ddarpariaeth o ran ysgolion cynradd ym Malpas. Yr ymgynghoriad mwyaf eleni oedd yr un ynghylch Asesiadau Llesiant a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2016 ac a ymgysylltodd â bron 1300 o bobl. Gwnaethom fonitro'r ymateb yn ôl nodwedd warchoddedig ac ymgysylltiad wedi'i dargedu er mwyn sicrhau bod ein data mor gynrychioladol â phosibl.

Yn y flwyddyn sydd i ddod byddwn yn ailystyried canllawiau i staff ar ymgynghori ac ymgysylltu yn unol â diwygio proses Asesu'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb.

Proffiliau Llesiant Cymunedol

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) mae'r awdurdod hefyd wedi cwblhau ac wedi cyhoeddi ein Proffiliau Llesiant Cymunedol. Mae'r proffiliau hyn yn ffynhonnell gyfoethog o ddata mewn nifer o feysydd gwahanol a bwriedir iddynt fod yn adnodd i aelodau o'r cyhoedd a swyddogion o fewn yr awdurdod. Bydd y proffiliau hyn hefyd yn rhoi adnodd ychwanegol i staff wrth ystyried Asesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb.

Gwerthuso data: datblygu arfer da

Mewn ymateb i bwysigrwydd y gwerthusiad dadansoddol o ddata cydraddoldeb, mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi datblygu cyfres o brosesau systematig sy'n sicrhau y caiff rhwymedigaethau statudol eu hystyried yn briodol. Cwmpesir hyn nid yn unig gan ein Hasesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb a'r gwaith ymgynghori rydym yn ei wneud gyda'r cyhoedd, ond hefyd drwy strwythur llywodraethu mewnol yr awdurdod.

Asesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb

Dengys Asesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb fod gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb wedi'i hystyried ac maent yn rhwymedigaeth statudol a osodir ar awdurdodau lleol pan fyddant yn llunio polisiau newydd neu'n diwygio gwasanaethau. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/2017 cynhaliwyd 20 o Asesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb. Caiff Asesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb eu cyhoeddi ar [dudalennu cydraddoldeb](#) y cyngor.

Yn unol ag ymrwymïadau a wnaed yn [adroddiad blynyddol 2015/16](#), mae Cyngor Dinas Casnewydd wrthi'n adolygu a gwella ansawdd ein hasesiadau effaith a'r broses a ddilynir wrth eu cynnal. Yn ogystal â diwygio'r ffurflen fel ei bod yn haws ei defnyddio ac atgyfnerthu presenoldeb rhwymedigaethau statudol yr awdurdod o dan fesur y Gymraeg (2011) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), byddwn hefyd yn ceisio cyhoeddi canllawiau gwell y bwriedir iddynt helpu ein staff i ddilyn proses Asesu'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb.

Er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol o ran cyhoeddi ein hasesiadau, mae'r awdurdod eisoes wedi cymryd camau i wella'r ffordd y mae staff yn cyflwyno Asesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb i'w cyhoeddi. Yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod, cyflwynir asesiadau yn ganolog i un cyfeiriad e-bost, lle y bydd aelodau penodol o staff yn gallu bwrw golwg drostynt a'u hanfon ymlaen i'w cyhoeddi. Gellir defnyddio'r e-bost hwn hefyd i gyflawni swyddogaeth debyg ar gyfer asesiadau o hyfforddiant Iaith Gymraeg, y mae gennym ddyletswydd i'w cyhoeddi bellach o dan safonau'r Gymraeg.

Cynlluniau Maes Gwasanaeth

Cyflwynir adroddiadau ar gynlluniau gwasanaeth ar gyfer pob maes i Aelodau'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu. Mae'r cynlluniau hyn yn nodi blaenoriaethau ar gyfer cyflawni a newid busnes, dangosyddion perfformiad allweddol a meini prawf llwyddiant.

Mae meysydd gwasanaeth hefyd yn cyflwyno adroddiadau ar ddemograffeg cwsmeriaid, ymgysylltu â chwsmeriaid, adborth a lywiodd eu gwaith cynllunio a'u perfformiad. Mae hyn yn arwydd o ymrwymïad y Cyngor i brif-ffrydio'r defnydd o wybodaeth berthnasol wrth gynllunio gwaith a rheoli perfformiad. Gwneir gwaith dros oes y strategaeth hon i sicrhau bod cynlluniau gwasanaeth yn cysylltu'n llawn ag Asesiadau perthnasol o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb sy'n chwarae rôl adeiladol wrth newid polisi a chynigion ar gyfer newid.

Defnyddio Data: cyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn sicrhau bod i'r agenda gydraddoldeb le blaenllaw yn ein proses gwneud penderfyniadau mewn nifer o ffyrdd.

Grŵp Cydraddoldeb Strategol

Ar ôl i ni gymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb Cyngor Dinas Casnewydd yn 2016, ailgynullodd yr awdurdod y Grŵp Cydraddoldeb Strategol i gyfarfod bob chwarter er mwyn rhoi arweiniad strategol ar roi'r agenda gydraddoldeb ar waith.

Rôl bresennol y grŵp yw rhoi arweiniad strategol wrth weithredu Deddf Cydraddoldeb 2010 ym mhob rhan o'r awdurdod, gan gynnwys y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, yr Amcanion Cydraddoldeb Corfforaethol a Mesur y Gymraeg 2011. Mae'r grŵp yn pennu cyfeiriad strategol ac yn monitro'r ffordd y caiff ei weithredu, tra'n sicrhau bod y broses o roi'r agenda gydraddoldeb ar waith yn seiliedig ar weithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned.

Y Comisiwn Tegwch

Fel estyniad i ymrwymiad yr awdurdod i'r agenda gydraddoldeb, yn 2012 cytunodd Cyngor Dinas Casnewydd i gydweithio â'r Comisiwn Tegwch i ymgorffori cysyniad y Comisiwn o 'degwch' a'i bedwar paramedr yn ein proses cynnig polisiau.

Daw aelodau'r Comisiwn o bleidiau gwleidyddol, Undebau llafur a phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol. Nod y grŵp yw dangos y gall gwaith y cyngor wella ei ganlyniadau i bobl leol drwy ystyried sut y gall y Cyngor wneud y defnydd gorau o'i bwerau, ei ddyletswyddau a'i adnoddau er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau a thecaf.

Yn unol â gwelliannau a wnaed i broses yr awdurdod o Asesu'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb, mae Tegwch bellach yn cael ei gynrychioli'n well ar ein ffurflen Asesu'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb ac mae ei bedwar paramedr wedi'i gynnwys yn well yn y dogfennau canllawiau cysylltiedig. Mae'r paramedrau hyn wedi nodi fframwaith cyffredinol ar gyfer gofyn cwestiynau hanfodol am degwch ac, yn eu tro, yn rhoi canllawiau ar sut i asesu effaith cynigion a newidiadau i bolisi. Ceir adroddiad llawn gan y Comisiwn Tegwch [yma](#).

Data Cyflogaeth

Dadansoddiad

Mae'r data yn ymwneud â thua 6,406 o gyflogeion y Cyngor (gan gynnwys staff addysgu). Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd o 3.5% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan oedd gennym 6181 o gyflogeion.

Ni allwn gyflwyno adroddiadau dibynadwy ar gyflogeion sydd wedi gwneud cais i newid swydd yn yr awdurdod o gymharu â'r rheini a fu'n llwyddiannus; y rheini a wnaeth gais am hyfforddiant ac a lwyddodd i gael yr hyfforddiant hwnnw a'r rheini a gwblhaodd hyfforddiant. Dim ond o ran yr achwynydd y gallwn gyflwyno adroddiadau mewn perthynas â'r categori cwynion, nid ar y rheini y gwnaed cwynion yn eu cylch.

Rydym yn bwriadu gwneud rhagor o waith yn y maes hwn yn 2017/18 er mwyn gwella dibynadwyedd ac ansawdd ein gwaith monitro data cyflogeion.

- Merched yw tua 76% o'r gweithlu.
- Mae patrwm cyflogau dynion a merched yn debyg iawn hyd at enillion o £55,000 a throsgod, sef categori sy'n cynnwys llai nag 1% o gyflogeion benywaidd o gymharu â 2.8% o gyflogeion gwrywaidd
- Mae'r un ganran o ddynion a merched yn cael eu cyflogi mewn swyddi parhaol, sy'n cyfateb i tua 70% o'r gweithlu
- Ceir gwahaniaeth sylweddol o ran patrymau gwaith. Mae tua 68% o ddynion yn gweithio'n llawn amser o gymharu â dim ond 32% o ferched.
- Ceir y ganran uchaf o gyflogeion yn y band oedran 35-44. Yn ddiddorol ddigon, yn y band oedran hwn y ceir y ganran uchaf o gyflogeion sydd wedi gadael, sef 23.5%, wedyn unigolion rhwng 25 a 34 oed, a oedd yn ffurfio 21.5% o'r cyflogeion sydd wedi gadael.
- Ar gyfer ymgeiswyr swydd, daw'r nifer uchaf o geisiadau o'r categorïau oedran 25-34 oed (32.1%) ac 16-24 oed (26%), ond dim ond 5.6% o gyflogeion sydd yn y categori oedran 16-24 o hyd
- Mae canran yr ymgeiswyr gwrywaidd ychydig yn uwch na chanran poblogaeth y cyflogeion
- Mae canran y bobl sydd wedi gadael sy'n nodi eu bod yn anabl (4.8%) yn debyg i ganran y cyflogeion sy'n nodi eu bod yn anabl (1.6%)
- Mae canran y cyflogeion anabl a'r ymgeiswyr swydd anabl yn isel (1.6% a 3.9%) o gymharu â chyfrifiad 2011 sy'n dangos bod 10.6% o boblogaeth Casnewydd yn datgan bod eu gweithgareddau beunyddiol wedi'u cyfyngu'n sylweddol. Fodd bynnag, mae'r ganran hon wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol pan oedd 3.5% o'r ymgeiswyr swydd yn anabl.
- Mae cyfran y cyflogeion sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn is na'r gyfran o fewn poblogaeth Casnewydd. Gan nad yw 0.7% o ymgeiswyr swydd yn datgan eu

hethnigrwydd, nid ydym yn gwybod p'un a ydynt yn adlewyrchu'r boblogaeth. Beth bynnag, mae'r gyfran sy'n datgan eu bod yn 'Wyn' yn adlewyrchu poblogaeth Casnewydd felly mae'n bosibl bod ymgeiswyr swyddi yn gynrychioliadol.

Band cyflog yn ôl rhyw

Band Cyflog (£)	2015/16				2016/17			
	Dynion	%	Merched	%	Dynion	%	Merched	%
10,000-14,999	184	12.3	561	11.2	131	8.9	411	8.3
15,000-19,999	526	35.1	2020	40.2	526	35.9	1979	40.0
20,000-24,999	162	10.8	691	13.8	175	12.0	744	15.1
25,000-29,999	145	9.7	386	7.7	157	10.7	421	8.5
30,000-34,999	101	6.7	302	6.0	93	6.4	283	5.7
35,000-39,999	258	17.2	806	16.1	255	17.4	837	16.9
40,000-44,999	16	1.1	42	0.8	19	1.3	43	0.9
45,000-49,999	18	1.2	41	0.8	20	1.4	40	0.8
50,000-54,999	15	1.0	35	0.7	13	0.9	24	0.5
55,000-59,999	10	0.7	16	0.3	10	0.7	26	0.5
60,000-64,999	8	0.5	16	0.3	6	0.4	11	0.2
65,000-69,999	7	0.5	7	0.1	10	0.7	10	0.2
70,000+	17	1.1	11	0.2	16	1.1	14	0.3
Ddim yn Hysbys	30	2.0	85	1.7	33	2.3	99	2.0
Cyfanswm	1497	100	5019	100	1464	100	4942	100

Math o contract yn ôl rhyw

Math o Contract	2015/16				2016/17			
	Dynion	%	Merched	%	Dynion	%	Merched	%
Parhaol	1053	70.3	3579	71.3	1036	70.8	3478	70.4
Dyrchafiad Dros Dro	25	1.7	64	1.3	17	1.2	51	1.0
Dros dro (casual)	195	13.0	443	8.8	196	13.4	462	9.3
Tymor Penodol	182	12.2	828	16.5	204	13.9	909	18.4
Cyflewni salwch amser hir	0	0.0	1	0.0	0	0.0	0	0.0
Cyflenwi mamolaeth	2	0.1	8	0.2	0	0.0	2	0.0
Tymhorol	31	2.1	85	1.7	7	0.5	33	0.7
Secondiad	4	0.3	5	0.1	1	0.1	1	0.0
Sesiynol	3	0.2	3	0.1	3	0.2	5	0.1
Cyflenwi	1	0.1	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Dros dro	1	0.1	3	0.1	0	0.0	1	0.0
(Gwag)	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Cyfanswm	1497	100.0	5019	100.0	1464	100.0	4942	100.0

Patrwm gweithio yn ôl rhyw

	2015/16				2016/17			
Patrwm Gweithio	Dynion	%	Merched	%	Dynion	%	Merched	%
Llawn Amser	1000	66.8	1619	32.3	998	68.2	1588	32.1
Rhan-amser	495	33.1	3297	65.7	463	31.6	3273	66.2
Rhannu swydd	2	0.1	103	2.1	3	0.2	81	1.6
Cyfanswm	1497	100.0	5019	100.0	1464	100.0	4942	100.0

Proffil oedran

Grŵp Oedran	2015/16						2016/17					
	Cyflogeion (31 Mawrth)	%	Ymgeiswyr Swydd	%	Pobl sydd wedi gadael	%	Cyflogeion (31 Mawrth)	%	Ymgeiswyr Swydd	%	Pobl sydd wedi gadael	%
16-24	417	6.7	946	20.8	18	4.9	345	5.6	1132	26.0	16	5.1
25-34	1407	22.8	1583	34.8	68	18.4	1427	23.2	1394	32.1	67	21.5
35-44	1590	25.7	899	19.8	74	20.1	1562	25.4	817	18.8	73	23.5
45-49	857	13.9	361	7.9	49	13.3	859	14.0	377	8.7	37	11.9
50-54	811	13.1	321	7.1	51	13.8	817	13.3	275	6.3	38	12.2
55-59	621	10.0	247	5.4	36	9.8	625	10.2	193	4.4	30	9.6
60-64	310	5.0	65	1.4	47	12.7	342	5.6	92	2.1	35	11.3
65-69	117	1.9	11	0.2	24	6.5	115	1.9	7	0.2	12	3.9
70-74	370	6.0	98	2.2	15	4.1	365	5.9	51	1.2	5	1.6
75+	6181	100.0	4550	100	369	100	6152	100.0	4346	100	311	100
Byddai'n well gennyf beidio â dweud	0		117	2.6	0	0.0	0	0.0	54	1.2	0	0.0
Cyfanswm	6181	100	4550	100	369	100	6152	100	4346	100	311	100

Rhyw

Rhyw	2015/16						2016/17					
	Cyflogeion (31 Mawrth)	%	Ymgeiswyr Swydd	%	Pobl sydd wedi gadael	%	Cyflogeion (31 Mawrth)	%	Ymgeiswyr Swydd	%	Pobl sydd wedi gadael	%
Benywaidd	4682	75.7	3307	72.7	229	62.1	4681	76.1	3181	73.2	186	59.8
Gwrwaidd	1499	24.3	1156	25.4	140	37.9	1471	23.9	1132	26.0	125	40.2
Ddim yn hysbys	0	0.0	87	1.9	0	0.0	0	0.0	33	0.8	0	0
Cyfanswm	6181	100	4550	100	369	100	6152	100	4346	100	311	100

Statws Priodasol

Statws Priodasol	2015/16						2016/17					
	Cyflogeion (31 Mawrth)	%	Ymgeiswyr Swydd	%	Pobl sydd wedi gadael	%	Cyflogeion (31 Mawrth)	%	Ymgeiswyr Swydd	%	Pobl sydd wedi gadael	%
Partneriaeth Sifil	4	0.1	22	0.5	0	0.0	6	0.1	31	0.7	1	0.3
Wedi ysgaru	252	4.1	231	5.1	18	4.9	249	4.0	237	5.5	18	5.8
Byw gyda Phartner	494	8.0	662	14.5	29	7.9	517	8.4	631	14.5	23	7.4
Wedi priodi	2930	47.4	1435	31.5	184	49.9	2884	46.9	1221	28.1	154	49.5
Wedi gwahanu	89	1.4	95	2.1	8	2.2	87	1.4	76	1.7	7	2.3
Sengl	1957	31.7	1950	42.9	111	30.1	1950	31.7	2042	47.0	101	32.5
Gweddwr	44	0.7	20	0.4	1	0.3	48	0.8	8	0.2	1	0.3
Byddai'n well gennyf beidio â dweud (gwag)	41	0.7	37	0.8	3	0.8	46	0.7	49	1.1	1	0.3
Cyfanswm	6181	100.0	4550	100	369	100	6152	100.0	4346	100	311	100

Anabledd

Anabledd	2015/16						2016/17					
	Cyflogeion (31 Maw)	%	Ymgeiswyr Swydd	%	Pobl sydd wedi gadael	%	Cyflogeion (31 Maw)	%	Ymgeiswyr Swydd	%	Pobl sydd wedi gadael	%
Anabl	106	1.7	203	4.5	8	2.2	101	1.6	170	3.9	15	4.8
Ddim yn anabl	5935	96	3872	85.1	349	94.6	5860	95.3	3794	87.3	288	92.6
Ddim yn hysbys	36	0.6	47	1.0	3	0.8	48	0.8	67	1.5	4	1.3
(Gwag)	1.1	1.7	428	9.4	2.3	1.9	143	2.3	315	7.2	4	1.3
Cyfanswm	6181	100	4550	100	369	100	6152	100	4346	100	311	100

Cyfeiriadedd Rhywiol

Cyfeiriadedd rhywiol	2015/16						2016/17					
	Cyflogeion (31 Mawrth)	%	Ymgeiswyr Swydd	%	Pobl sydd wedi gadael	%	Cyflogeion (31 Mawrth)	%	Ymgeiswyr Swydd	%	Pobl sydd wedi gadael	%
Heterorywiol	1369	22.1	3909	85.9	113	30.6	1643	26.7	3809	87.6	155	49.8
Cyfunrhywiol	12	0.2	56	1.2	0	0.0	23	0.4	53	1.2	1	0.3
Deurywio	6	0.1	64	1.4	1	0.3	10	0.2	58	1.3	2	0.6
Lesbiaidd	11	0.2	43	0.9	0	0.0	17	0.3	58	1.3	0	0.0
Gwrthod nodi	174	2.8	213	4.7	6	1.6	289	4.7	207	4.8	13	4.2
Gwag	4609	74.6	265	5.8	249	67.5	4170	67.8	161	3.7	140	45.0
Cyfanswm	6181	100	4550	100	369	100	6152	100	4346	100	311	100

Crefydd neu gred

Crefydd	2015/16						2016/17					
	Cyflogeion (31 Mawrth)	%	Ymgeiswyr Swydd	%	Pobl sydd wedi gadael	%	Cyflogeion (31 Mawrth)	%	Ymgeiswyr Swydd	%	Pobl sydd wedi gadael	%
Agnostig	105	1.7	373	8.2	8	2.2	126	2.0	363	8.4	9	2.9
Anffyddiwr	180	2.9	646	14.2	18	4.9	238	3.9	721	16.6	32	10.3
Bwdiaidd - Hinayana	3	0.0	7	0.2	1	0.3	3	0.0	5	0.1	0	0.0
Bwdiaidd - Mahayana	3	0.0	7	0.2	0	0.0	3	0.0	6	0.1	0	0.0
Cristion – Unionged	142	2.3	318	7.0	5	1.4	174	2.8	328	7.5	12	3.9
Cristion – Protestant	356	5.8	815	17.9	28	7.6	416	6.8	660	15.2	36	11.6
Cristion – Catholig	183	3.0	479	10.5	13	3.5	235	3.8	494	11.4	22	7.1
Hindwaeth	3	0.0	29	0.6	0	0.0	2	0.0	15	0.3	1	0.3
Islam – Shi'aidd	0	0	0	0	4	1.1	2	0.0	15	0.3	0	0.0
Islam - Swnni	25	0.4	13	0.3	2	0.5	35	0.6	167	3.8	5	1.6
Iddewiaeth – Unionged	0	0.0	0	0.0	0	0.0	1	0.0	1	0.0	0	0.0
Iddewiaeth – Diwygiedig	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	1	0.0	0	0.0
Siciaeth	1	0.0	305	6.7	1	0.3	1	0.0	10	0.2	0	0.0
Taoaeth	1	0.0	4	0.1	0	0.0	1	0.0	6	0.1	1	0.3
Heb ei nodi	424	6.9	128	2.8	27	7.3	561	9.1	890	20.5	41	13.2
Gwag	4658	75.4	388	8.5	252	68.3	4224	68.3	271	6.2	142	45.7
Cyfanswm	6181	100	4550	100	369	100	6152	100	4346	100	311	100

Tarddiad Ethnig

Traddiad Ethnig	2015/16			2016/17		
	Cyflogeion % (31 Maw)	Ymgeiswyr Swydd %	Poblydd wedi gadael	Cyflogeion % (31 Maw)	Ymgeiswyr Swydd %	Poblydd wedi gadael
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd	0.4	1.0	0.3	0.4	1.0	0.6
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Indian	0.4	0.8	1.1	0.4	0.9	0.6
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Pakistanaidd	0.5	1.1	1.4	0.5	1.6	1.6
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Arall	0.4	0.7	0.5	0.4	1.1	1.0
Du neu Ddu Prydeinig - Affricanaidd	0.4	2.2	0.5	0.4	2.1	1.6
Du neu Ddu Prydeinig - Caribiaidd	0.5	0.5	0.3	0.4	0.5	0.6
Du neu Ddu Prydeinig – Arall	0.0	0.2	0.0	0.0	0.3	0.0
Tsieineaidd neu Arall - Tsieineaidd	0.1	0.3	0.0	0.1	0.2	0.3
Tsieineaidd neu Arall - Sipsi / Teithiwr	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Tsieineaidd neu Arall – Grŵp Ethnig Arall	0.1	0.0	0.0	0.1	0.1	0.0
Cymysg – Du Affricanaidd	0.0	0.1	0.0	0.0	0.1	0.0
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	0.2	0.3	0.3	0.2	0.5	0.0
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	0.2	0.3	0.0	0.1	0.2	0.3
Cymysg – Gwyn a Du Caribiaidd	0.4	1.1	0.8	0.4	1.3	1.0
Cymysg – Arall	0.3	1.2	0.5	0.3	0.6	1.0
Gwyn - Prydeinig	70.1	59.2	68.8	68.7	59.6	65.6
Gwyn – Seisnig	2.0	2.0	3.0	1.9	1.5	1.3
Gwyn – Gwyddelig	0.7	0.4	0.8	0.7	0.4	0.3
Gwyn – Ewropeaidd Arall	0.4	2.2	0.5	0.6	2.3	1.6
Gwyn - Albanaidd	0.2	0.2	0.3	0.1	0.2	0.3
Gwyn – Cymreig	19.1	21.6	17.6	20.0	21.6	19.0
Hebe i nodi	0.1	0.6	0.0	0.1	0.7	0.3
Byddai'n well gennyf beidio a dweud	0.1	0.1	0.0	0.1	0.7	0.3
Anhysbys	0.1	0.0	0.0	0.1	0.0	0.3
(Gwag)	1.2	1.8	1.1	1.6	0.8	0.3
Cyfanswm	100	100	100	100	100	100

	2015/16			Casnewydd	Cymru
Traddiad Ethnig	Cyflogeion % (31 Maw)	Ymgeisw yr Swydd %	Pobl sydd wedi gadael	Cyfrifiad	Cyfrifiad
Cyfanswm Asiaidd	1.6	4.6	3.9	5.4	2.2
Cyfanswm Du	0.8	2.9	2.3	1.7	0.6
Cyfanswm Arall	0.2	0.3	0.3	1	0.5
Cyfanswm Cymysg	1.1	2.6	2.3	1.9	1
Cyfanswm Gwyn	94.0	87.2	90.0	89.9	95.6
Byddai'n well gennyf beidio â dweud/Anhysbys	0.3	0.7	0.6	0.1	0.1
Byddai'n well gennyf beidio â dweud/Anhysbys	98	98	99	100	100

Llyfryddiaeth

Y Comisiwn Tegwch <http://www.newport.gov.uk/fairnessCommission/en/Full-Report/Full-Report.aspx>

Cyngor Dinas Casnewydd: Yr Iaith Gymraeg: Strategaeth 5 Mlynedd Ar gael yn: <http://www.newport.gov.uk/documents/Council-and-Democracy/Equalities-and-Welsh-language-/Welsh/WELSH-NCC-Welsh-Language-Strategy-2017-2022.pdf>

Cyngor Dinas Casnewydd: Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb 2016-2020 (2016). Ar gael yn: <http://www.newport.gov.uk/documents/Council-and-Democracy/Equalities-and-Welsh-language-/WELSH-NCC-Strategic-Equality-Plan-and-Equality-Objectives-2016.pdf>

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Dinas Casnewydd: Adroddiad Blynyddol 2015-2016 (2016). Ar gael yn: <http://www.newport.gov.uk/documents/Council-and-Democracy/Equalities->

[and-Welsh-language-/Welsh/WELSH-Strategic-Equality-Plan-Annual-Report-1516-final-for-cabinet.pdf](#)